Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: ATISN 15555

11 Hydref 2021

Annwyl

ATISN 15555 - Cais Rhyddid Gwybodaeth - Dysgu seiliedig ar waith

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar **29/09/21** Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

i. cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng: (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2016/17 i 2020-21
ii. cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer gweithgareddau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a ddarparwyd drwy gyfrwng: (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2016/17 i 2020-21
iii. cyfanswm y gwariant a gyfrifwyd ar gyfer rhaglenni prentisiaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a ddarparwyd drwy gyfrwng: (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2016/17 i 2020-21
iv. nifer y prentisiaid a ymgymerodd â'u fframwaith prentisiaeth drwy gyfrwng: (i) y Saesneg; (ii) y Gymraeg; (iii) yn ddwyieithog, ar gyfer bob blwyddyn ariannol o 2016/17 i 2020-21.

Ar ôl chwilio ein cofnodion papur ac electronig, rwyf wedi canfod nad yw Llywodraeth Cymru'n cadw rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Nid yw'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r tri phwynt cyntaf uchod ar gael, gan nad yw Llywodraeth Cymru'n dadansoddi'r data i'r lefel honno. Nid oes dyraniad cyllideb penodol ar gyfer dysgu Cymraeg, Saesneg na dwyieithog. Mae'r dyraniad cyllideb cyfan ar gael i ariannu dysgu yn y cyfrwng a ffefrir gan y dysgwr.

Nid ydym yn casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â phwynt 4 wedi'i rannu yn ôl niferoedd y prentisiaid. Fodd bynnag, rydym yn casglu data ar weithgareddau dysgu yn ôl y cyfrwng y ddarpariaeth. Cyhoeddwyd y set ddata ddiweddaraf sy'n cynnwys yr wybodaeth hon ym mis

Tŷ'r Afon ▪ Tŷ'r Afon
Ffordd Bedwas ▪ Bedwas Road
Bedwas ▪ Bedwas
Caerffili ▪ Caerphilly
CF83 8WT

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Chwefror 2021 ac mae'n cynnwys pob blwyddyn hyd at a chan gynnwys 2019/20. Mae'r wybodaeth hon ar gael drwy'r ddolen isod:

https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Time-Series/learningactivities-by-mediumofdelivery-providertypeinworkbasedlearning

Nid yw gwybodaeth yn ymwneud â 2020/21 wedi'i chyhoeddi eto gan fod y data sy'n ymwneud â'r flwyddyn honno'n dal i gael ei gasglu.

Dylech nodi bod ein holl ddata'n cael ei gynhyrchu ar sail blwyddyn academaidd (1 Awst i 31 Gorffennaf).

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir